Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Polisi rheoli gwrthdaro buddiannau posibl

**Taflen wybodaeth**

| | |
|---|---|
| Blwch gwybodaeth | |
| Am ragor o gyngor, cysylltwch â'r: | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Dyddiad cyhoeddi: | Gorffennaf 2020 |
| Dyddiad adolygu arfaethedig: | Mawrth 2022 |

**Rheoli fersiwn**

| **Fersiwn y ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau a wnaed** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Phil Sweeney | Ebrill 2016 | Ddim yn berthnasol |
| 1.1 | Phil Sweeney | Gorffennaf 2020 | Diweddarwyd i gyfeirio at newidiadau mewn polisïau cysylltiedig eraill a ffurflen SharePoint newydd. |

**Asesiad o effaith**

- Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflwyno Estyn.
- Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal, a chredir nad yw'r polisi hwn yn effeithio'n niweidiol ar unrhyw bobl ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Datganiad polisi** **2**

Diffiniad (o wrthdaro buddiannau) 2

Cwmpas (y polisi) 2

**Penderfynu ar wrthdaro buddiannau** **3**

Trin yn ffafriol mewn trafodion preifat 3

Datganiad 4

Methiant i wneud datganiad 4

**Atodiad A: Ffurflen Datgan Buddiannau** **5**

## Cyflwyniad

1 Datblygwyd y polisi hwn i reoli gwrthdaro buddiannau posibl a helpu sicrhau y caiff gweithgareddau Estyn, a'i staff, eu cyflawni i'r safonau uchaf o ran moeseg ac uniondeb.

2 A ninnau'n un o sefydliadau'r gwasanaeth sifil, mae gennym ddyletswydd i gyflawni'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol. Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn ffurfio rhan o delerau ac amodau pob gwas sifil. Yn Estyn, rydym hefyd yn disgwyl i gydweithwyr ddangos ymrwymiad i egwyddorion ehangach bywyd cyhoeddus, sy'n arddel anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

3 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, gallwn fod ynghlwm wrth wario arian ar ran Estyn, ymgymryd â thrafodion neu lunio ymrwymiadau neu gontractau ar gyfer ein sefydliad. Efallai bod gennym fuddiant mewn sefydliadau y tu allan i Estyn hefyd, sydd ym maes addysg a hyfforddiant. Felly, mae'n bwysig iawn, os oes gennym fuddiant preifat, ariannol neu fuddiant arall a all orgyffwrdd â'n dyletswyddau fel un o gyflogeion Estyn, ein bod yn datgelu'r buddiant hwnnw a'i reoli'n briodol.

4 Rydym yn annog cydweithwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau y tu allan i'r gwaith, yn enwedig pan fyddant yn defnyddio eu hamser a'u doniau er budd y gymuned, ond mae angen bod â dulliau ar waith i ddiogelu staff ac Estyn rhag niweidio eu henw da neu atebolrwyddau eraill. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau allanol, gall cydweithwyr roi eu hunain mewn sefyllfa anodd, lle y gallai buddiant allanol wrthdaro, neu ymddangos fel petai'n gwrthdaro, â'u dyletswyddau ar ran Estyn. Yna, gallai'r cyflogai fod yn agored i ddrwgdybiaeth bod y penderfyniadau a wna fel cyflogai Estyn yn cael eu dylanwadu gan fuddiant personol, hyd yn oed pan fydd y cyflogai'n ymddwyn yn niwtral ag uniondeb proffesiynol llwyr.

5 Er mwyn cynnal uniondeb ac enw da o'r safon uchaf, mae'n hanfodol ein bod yn datgan unrhyw fuddiant sydd gennym ni, neu aelodau o'n teulu agos, a all roi'r argraff o wrthdaro, hyd yn oed pan nad oes unrhyw wrthdaro mewn gwirionedd. Ein dull ar gyfer pob gwrthdaro posibl, p'un a yw'n wirioneddol neu'n dybiedig, yw:

- ei gwneud yn ofynnol i staff ei ddatgelu bob tro
- trafod a chytuno ar drefniadau i reoli'r gwrthdaro, lle bo hynny'n bosibl
- cynghori staff ar y goblygiadau posibl mewn achosion pan na ellir dod i gytundeb i reoli'r gwrthdaro

## Datganiad polisi

6 Mae’n ofynnol i holl staff a chyfarwyddwyr anweithredol Estyn gydnabod a datgelu gweithgareddau a all arwain at wrthdaro buddiannau, neu’r amgyffrediad o wrthdaro buddiannau, a sicrhau bod y gwrthdaro hwn i’w weld yn cael ei reoli neu ei osgoi’n briodol.

7 Trwy ddilyn y polisi hwn, rydym yn disgwyl rheoli unrhyw wrthdaro posibl a diogelu uniondeb ac enw da Estyn a’i staff.

**Diffiniad**

8 Diffiniad gweithredol o wrthdaro buddiannau yw: "gwrthdaro rhwng buddiannau preifat a chyfrifoldebau swyddogol rhywun sydd mewn swydd ymddiriedus".

9 Nid yw’r diffiniad wedi’i gyfyngu i achosion lle mae’r unigolyn yn bradychu’r ymddiriedaeth honno – gall fod yr un mor niweidiol i’r gwrthdaro buddiannau fodoli neu ymddangos fel petai’n bodoli, neu hyd yn oed â’r potensial i ddatblygu’n wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol. Mae’r polisi hwn yn fodd i ddiogelu cyflogeion Estyn rhag beirniadaeth neu berygl drwy sicrhau eu bod yn cydnabod ac yn datgelu unrhyw wrthdaro tebyg ac yn cymryd camau i’w osgoi a’i reoli.

**Cwmpas**

10 Mae’r polisi hwn yn berthnasol i holl gyflogeion amser llawn a rhan-amser Estyn, secondeion, staff asiantaeth a chyfarwyddwyr anweithredol. Mae polisi ar wahân, sy’n cwmpasu contractwyr, ymgynghorwyr a phobl eraill a gyflogir gan Estyn, ar waith i reoli gwrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas â gwaith arolygu, ac mae i’w weld yma.

11 Os yw unigolyn yn ansicr ynghylch sut gallai’r polisi hwn effeithio ar ei (g)weithgareddau, neu os oes ganddo/ganddi unrhyw gwestiynau yn ymwneud â sut i’w gymhwyso, dylai gysylltu â’i r(h)eolwr llinell neu’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am gyngor.

12 Mae’r polisi hwn yn ychwanegu at y gofynion priodoldeb sydd wedi’u hamlinellu ym Mholisi gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo a Llawlyfr Cyllid Estyn, ac yn ymhelaethu arnynt.

## Penderfynu ar wrthdaro buddiannau

13 Mae gwrthdaro buddiannau'n codi pan fydd ymrwymiadau a rhwymedigaethau aelod staff unigol i Estyn neu gyrff eraill, er enghraifft corff ariannu, yn debygol o gael eu peryglu, neu'n ymddangos eu bod wedi'u peryglu, gan:

- fudd personol yr unigolyn hwnnw, neu fudd teulu agos, p'un a yw'n fudd ariannol neu'n fudd arall; neu
- ymrwymiadau a rhwymedigaethau'r unigolyn hwnnw i unigolyn neu gorff arall. Er enghraifft, gallai aelodaeth bwrdd allanol gynnwys rhwymedigaeth (a dyletswydd statudol ambell waith) i weithredu er lles pennaf y corff allanol. Gall y dyletswyddau hyn orgyffwrdd â'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau hynny fel cyflogeion Estyn. Nid yw cytundeb gan Estyn i'r penodiad allanol hwnnw yn rhyddhau'r cyflogai rhag sicrhau ei fod/bod yn parhau i roi ei brif/phrif ymrwymiad a theyrngarwch i Estyn.

14 Gall fod sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod gwrthdaro buddiannau hyd yn oed pan nad oes unrhyw wrthdaro mewn gwirionedd. Mae pob unigolyn yn gyfrifol am gydnabod sefyllfaoedd a gweithgareddau lle mae ganddo ef neu ganddi hi wrthdaro buddiannau, neu lle y gallai ymddangos yn rhesymol i bobl eraill fod gwrthdaro buddiannau, a datgelu'r gwrthdaro hwnnw i'w r(h)eolwr llinell, a chyflwyno cais yn gofyn am ganiatâd i ymgymryd â gweithgareddau tebyg.

15 Gall gwrthdaro buddiannau fod yn ariannol, yn anariannol neu'r ddau ohonynt:

- Mae buddiant ariannol yn cyfeirio at unrhyw beth o werth ariannol nad yw'n ddibwys (mae Llawlyfr Cyllid Estyn yn rhoi arweiniad ar lefel ddibwysedd o ran Rhoddion a Lletygarwch), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: dâl; comisiwn; ffioedd ymgynghori; buddiannau ecwiti; rhyddhau dyled; eiddo; breindaliadau; a hawliau eiddo deallusol.
- Mae buddiant anariannol yn cyfeirio at unrhyw fuddiant neu fantais anariannol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, wella gyrfa, addysg neu enw da proffesiynol unigolyn, a manteisio ar wybodaeth neu gyfleusterau breintiol.

### Trin yn ffafriol mewn trafodion preifat

16 Ni ddylai cydweithwyr geisio na derbyn buddiannau ffafriol gan gwmnïau preifat na sefydliadau eraill y maent wedi ymdrin â nhw, neu y gallant fod wedi ymdrin â nhw, ar ran Estyn. Mae gan bob cyflogai ddyletswydd i sicrhau nad yw'n cael ei r(h)oi mewn sefyllfa lle mae perygl o wrthdaro rhwng buddiannau preifat a buddiannau Estyn. Dylai'r rhai sy'n gysylltiedig â dyfarnu contractau fod yn arbennig o ofalus i sicrhau nad ydynt yn cael eu dylanwadu, neu y gellir amgyffred eu bod wedi'u dylanwadu, gan gysylltiad ag unrhyw un sydd â chontract ag Estyn. Gellir gofyn am arweiniad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

17 Caiff buddiant ei gofrestru gan ddefnyddio'r ffurflen Datgan Buddiant ar SharePoint Online (yma).

18 Bydd datganiadau o fuddiant a wneir gan aelodau'r Bwrdd Strategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Estyn.

## Datganiad

19 Y rheol gyffredinol yw y dylai'r datgeliad gael ei wneud pan fydd y gwrthdaro'n codi am y tro cyntaf, neu pan gaiff ei gydnabod y gellir amgyffred gwrthdaro. Dylai'r unigolyn ddiweddaru'r ffurflen Datganiad o Fuddiant ar unwaith ac anfon dolen i'r ffurflen at ei r(h)eolwr llinell i'w hadolygu. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai unigolion ddatgelu buddiant ymlaen llaw bob tro - os ydych yn ansicr, trafodwch â'ch rheolwr llinell. Mae unigolion yn gyfrifol am sicrhau bod eu buddiannau datganedig yn gyfredol bob amser, a'u bod wedi'u hadolygu bob blwyddyn - bydd nodyn atgoffa'n cael ei anfon pan fydd yr adolygiad blynyddol yn ddyledus.

20 Rhaid asesu pob gwrthdaro buddiannau posibl. Ni fydd llawer o sefyllfaoedd yn gofyn mwy na datganiad o'r buddiant a/neu weithgarwch i'w adolygu a'i awdurdodi gan y rheolwr llinell wedi hynny, a fydd yn cael ei nodi yn y ffurflen Datganiad o Fuddiant. Gellir rhoi mesurau neu amodau ar waith i leihau a rheoli unrhyw wrthdaro. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol cyfeirio'r mater at y Grŵp Cyfarwyddwyr i gytuno ar sut i reoli'r gwrthdaro. Dylai'r dull a fabwysiedir gael ei gofnodi a'i gadw ar ffurflen Datganiad o Fuddiant yr unigolyn (adran 10).

21 Dylai unrhyw fater heb ei ddatrys gael ei gyfeirio at y Cyfarwyddwr Strategol perthnasol. Dylid defnyddio'r polisi a phrosesau datrys anghydfod mewn achosion lle mae unigolyn yn anfodlon â phenderfyniad a wneir gan reolwyr.

22 Bydd y Grŵp Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal adolygiad blynyddol o ddatganiadau pob AEM, a bydd cyfarwyddwyr unigol yn rhoi sicrwydd i PAEM (gan gyfeirio at unrhyw faterion a all fod yn gynhennus) fel rhan o'u Datganiad Sicrwydd Blynyddol.

23 Bydd y tîm Rheoli Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am gynnal adolygiad o ddatganiadau'r holl staff Gwasanaethau Corfforaethol, a chyfeirio unrhyw faterion a all fod yn gynhennus at y Grŵp Cyfarwyddwyr i'w trafod. Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn rhoi sicrwydd i PAEM (gan gyfeirio at unrhyw faterion a all fod yn gynhennus) fel rhan o'i D(d)atganiad Sicrwydd Blynyddol.

24 Bydd y Bwrdd Strategol yn adolygu ac yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau posibl mewn perthynas â chyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol drwy eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Strategol.

## Methiant i wneud datganiad

25 A fyddech cystal â chydymffurfio â'r polisi hwn, oherwydd gall methiant i wneud unrhyw ddatganiad perthnasol arwain at gymryd camau o dan Bolisi Disgyblu Estyn a/neu'r Polisi gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo.

## Atodiad A: Ffurflen Datganiad o Fuddiant *(i'w llenwi yn SharePoint)*

<html>
<div></div>
</html>

**1 Cyflogaeth â thâl heblaw ag Estyn**

**Os oes: nodwch -**
- **Enw'r sefydliad**
- **Y dyddiad y daw i ben**
- **Manylion perthnasol eraill e.e. rôl**

<html>
<div></div>
</html>

**2 Penodiadau gwirfoddol i gyrff cyhoeddus, elusennau, cyrff rheoleiddio neu broffesiynol, sefydliadau cydgefnogaeth (gan gynnwys pleidiau gwleidyddol) neu unrhyw sefydliad ym maes addysg a hyfforddiant**

**Os oes: nodwch -**
- **Enw'r sefydliad**
- **Y dyddiad y daw i ben**
- **Manylion perthnasol eraill e.e. rôl**

<div></div>

**3 Swydd cyfarwyddwr neu aelodaeth bwrdd, p'un a yw'n swydd breifat neu swyddogol, â thal neu'n ddi-dâl**

**Os oes: nodwch -**
- **Enw'r sefydliad**
- **Y dyddiad y daw i ben**
- **Manylion perthnasol eraill e.e. rôl**

<html>
<div></div>
</html>

**4 Buddiannau ecwiti (perchenogaeth/cyfranddaliadau) mewn cwmni preifat, busnes neu ymgynghoriaeth sy'n debygol o geisio delio ag Estyn neu a all geisio delio ag Estyn**

**Os oes: nodwch -**
- **Enw'r sefydliad**
- **Y math o fuddiant**

**5 Unrhyw fuddiant neu wybodaeth arall, a all awgrymu bod gwrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol, er enghraifft:**

**rhwymedigaeth â thâl a di-dâl, papurau academaidd, newyddiaduriaeth ac ati, gan gynnwys gwaith ysgrifenedig a llafar y tu allan i waith Estyn**

**golygu a/neu gyhoeddi llyfrau, erthyglau neu lythyrau mewn papurau newydd, cylchgronau neu ar y rhyngrwyd, gan gynnwys safbwyntiau neu gofiannau personol**

<html>
<div>.</div>
</html>

**6 Unrhyw fuddiant perthnasol arall sydd gan aelod agos o'ch teulu neu bartner**

*Mae aelodau agos o'ch teulu'n cynnwys partneriaid personol, rhieni, plant (oedolion a phlant dan oed), unrhyw riant, brawd neu chwaer (a'u partneriaid)*

<html>
<div>.</div>
</html>

**7 Rwyf wedi darllen Cod y Gwasanaeth Sifil a'r Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus. Rwy'n ymwybodol o sut i gael mwy o gyngor ar ymddygiad priodol i staff Estyn.**

Yes

**8 I gadarnhau bod y manylion hyn yn gywir, teipiwch eich enw yma:**

<html>
<div>div>
</html>

**9 Dyddiad:**

**10 Cofnod o gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i adolygiad rheolwr o'r buddiant datganedig**